**Adran y Prif Weithredwr**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**Y CYNGOR**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD IAU, 9FED GORFFENNAF, 2015**

***NODER**

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

**http://www.gwynedd.public-i.tv/core/portal/home**

Lleoliad

**Siambr Dafydd Orwig - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH**

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**maireirianroberts@gwynedd.gov.uk**

(DOSBARTHWYD 1/07/15)

**Dilwyn Williams**
**Prif Weithredwr**

www.gwynedd.gov.uk

Annwyl Gynghorydd,

**CYFARFOD O GYNGOR GWYNEDD – DYDD IAU, 9 GORFFENNAF 2015**

**FE'CH GWYSIR TRWY HYN** i gyfarfod o **GYNGOR GWYNEDD** a gynhelir am **1.00 y.h., DYDD IAU** nesaf, **DYDD IAU, 9FED GORFFENNAF, 2015 YN SIAMBR DAFYDD ORWIG - SWYDDFEYDD Y CYNGOR, SWYDDFA'R CYNGOR, CAERNARFON**, i ystyried y materion a grybwyllir yn y rhaglen a ganlyn.

Yr eiddoch yn gywir



Prif Weithredwr

Bydd yr ystafelloedd a ganlyn ar gael i'r grwpiau gwleidyddol yn ystod y bore:-

Plaid Cymru - Siambr Dafydd Orwig
Annibynnol – Siambr Hywel Dda
Llais Gwynedd – Ystafell Gwyrfai
Democratiaid Rhyddfrydol - Ystafell Peris
Llafur – Cefn Siambr Dafydd Orwig

# RHAGLEN

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 1 - 6

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar 14 Mai, 2015 fel rhai cywir (ynghlwm).

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**4. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Derbyn unrhyw gyhoeddiadau gan y Cadeirydd.

**5. GOHEBIAETH, CYFATHREBIADAU, NEU FUSNES ARALL**

Derbyn unrhyw ohebiaeth, gyfathrebiadau neu fusnes arall a ddygir gerbron yn arbennig dan gyfarwyddyd y Cadeirydd*.*

**6. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**7. CWESTIYNAU**

Ystyried unrhyw gwestiynau y rhoddwyd rhybudd priodol ohonynt o dan Adran 4.19 o'r Cyfansoddiad*.*

**8. CYNLLUN STRATEGOL CYNGOR GWYNEDD 2015-17** 7 - 74

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol (ynghlwm).

**9. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR STATUDOL GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2014/15** 75 - 102

Cyflwyno adroddiad y Cyfarwyddwr Statudol a Chyfarwyddwr Corfforaethol (ynghlwm).

**10. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL Y CYNGOR** 103 - 106

Cyflwyno adroddiad yr Arweinydd (ynghlwm).

**11. ABSENOLDEB AELOD O'R CYNGOR** 107 - 108

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd (ynghlwm).

**12. RHYBUDDION O GYNNIG** 109 - 110

(A) Yn unol â'r Rhybudd o Gynnig a dderbyniwyd oddi wrtho o dan Adran 4.20 y Cyfansoddiad, bydd y Cynghorydd R.H.Wyn Williams yn cynnig fel a ganlyn:-

**"Galwn ar Lywodraeth San Steffan i ddatganoli pwerau Comisiwn y Goron i Lywodraeth Cymru fel bod Cymru'n manteisio ar incwm a geir o diroedd ac arfordir Cymru. Bydd hyn yn golygu y bydd Cymru yn fwy llewyrchus drwy fod yn berchen ar yr hawliau i bysgota, mwyngloddio, chwilio am nwy ac olew, ynni'r llanw a thonnau'r môr a ffermydd gwynt, aur ac arian, a'r holl ynni a'r adnoddau sydd o fewn dyfroedd a ffiniau tiriogaethol dynodedig Cymru. Rydym hefyd yn gofyn i Awdurdodau Lleol eraill Cymru gefnogi'r cais."**

(B) Cyflwyno, er gwybodaeth, lythyr gan Mark Thomas, Golygydd y Daily Post, mewn ymateb i rybudd o gynnig y Cynghorydd Sian Gwenllian i'r cyfarfod diwethaf ynghylch penderfyniad Trinity Mirror i gau Swyddfa'r Herald yng Nghaernarfon. (ynghlwm).